O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 151 (Cy.34)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (I'r De o Gylchfan Rhyd-y-car, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed *25 Ionawr 2011*

Yn dod i rym *7 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Langurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (I'r De o Gylchfan Rhyd-y-car, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn neu mewn cysylltiad ag ef;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works* period") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 7 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o allanfa tua'r gogledd cerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercannaid hyd at farciau ildio cerbytffordd gylchredol Cylchfan Rhyd-y-car.